



**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Tref / Tregaron Town Council AGM –  
Nos Lun / Monday 20.05.2024**

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

**COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y CYNGOR /  
COUNCIL ANNUAL GENERAL MEETING MINUTES**

Eitem / Item	Gweithred / Action
<p>1. <b>CROESO / WELCOME</b> Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.</p> <p>Cydymdeimlodd y Cadeirydd â theulu'r diweddar Mr Doug Daniel a fu farw'n ddiweddar. Roedd Doug yn gyn Gynghorydd a Chadeirydd Cyngor Tref Tregaron.</p> <p>Estynwyd llongyfarchiadau hefyd i Glwb Pêl-droed Tregaron Turfs a enillodd rownd derfynol Cwpan Cyngyrair Canolbarth Cymru yn ddiweddar a Chlwb Hoci Caron sy'n bencampwyr Cyngyrair Hoci Adran 5 De Cymru ar gyfer tymor 2023/24. Hefyd i bwyllgor Tregaroc am drefnu ŵyl lwyddiannus iawn yn ddiweddar.</p> <p><i>The Chair welcomed everyone to the Annual General Meeting of the Council.</i></p> <p><i>The Chair expressed condolences to the family of the late Mr Doug Daniel who recently passed away. Doug was a past Councillor and Chair of Tregaron Town Council.</i></p> <p><i>The Chair also congratulated Tregaron Turfs Football Club who recently won the Central Wales League Cup and Caron Hockey Club who are South Wales Hockey Division 5 League champions for the 2023/24 season. Also to the Tregaroc Committee for arranging a successful event recently.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd/Chair), Rhydian Wilson, Catherine Hughes, Rhian Jones, Rhian Hughes, Meirian Morgan, Gwion James a Dewi Evans.</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>PSCO John Evans</p>	
<p>2. <b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b> Cyng / Cllr Owain Pugh, Sian Jones &amp; Dafydd Richards</p>	
<p>3. <b>CADARNHAU COFNODION Y CCB 2023 / APPROVAL OF MINUTES FROM 2023 AGM</b> Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir</p>	

	<p><i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhian Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhydian Wilson</p>	
4.	<p><b>ETHOL CADEIRYDD / ELECT A CHAIRPERSON</b></p> <p>Nid oedd Cyng. Rhydian Wilson, yr Is-Gadeirydd am 2023/24 am gymryd y Gadair. <i>Cllr. Rhydian Wilson, Vice-Chair for 2023/24 didn't wish to become Chair.</i></p> <p>Enwebwyd / <i>Nominated</i> – Cyng / Cllr Catherine Hughes</p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhian Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Dewi Evans</p> <p>Diolchodd y Cyng. Catherine Hughes i'r Cyng. Arwel Jones am ei arweiniad fel Cadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p>Diolchodd Cyng Arwel Jones i bawb am y cydweithrediad a'r gefnogaeth. Hefyd, diolchodd i'r Clerc am ei gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.</p> <p><i>Cllr Catherine Hughes thanked Cllr Arwel Jones for hir leadership as Chair over the past year.</i></p> <p><i>Cllr Arwel Jones thanked everyone for their co-operation and support. He also thanked the Clerk for her work over the past year.</i></p>	
	<p><b>TROSLWYDDWYD Y GADAIR I'R CYNG CATHERINE HUGHES / THE CHAIR WAS PASSED TO CLLR CATHERINE HUGHES</b></p>	
5.	<p><b>ETHOL IS-GADEIRYDD / ELECT A VICE-CHAIRPERSON</b></p> <p>Enwebwyd / <i>Nominated</i> – Cyng / Cllr Rhian Hughes</p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Arwel Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Jones</p>	
6.	<p><b>ETHOL CYNGHORWYR I IS-BWYLLGORAU / ELECTION OF COUNCILLORS TO SUB-COMMITTEES</b></p> <p>Mae'r is-bwyllgorau i'w sefydlu er mwyn helpu'r Clerc i wneud gwaith / ateb ymholiadau rhwng cyfarfodydd misol. Enwebwyd cynghorwyr i ymuno â'r is-bwyllgorau. Maent hefyd i roi adborth os maent wedi cwrdd / gwneud gwaith yn y cyfarfodydd misol.</p> <p>Clerc i wirio gyda Pennaeth Ysgol Henry Richard ynglŷn â chynrychiolydd y Cyngor Tref ar Gorff Llywodraethol yr ysgol.</p> <p><i>The sub-committees are to be set up to in order to help the Clerk carry out work / answer queries in between monthly meetings. Councillors were nominated to join the sub-comittees. They are also to give feedback at the monthly meetings if they have met / carried out tasks.</i></p> <p><i>Clerc to check with the Head of Ysgol Henry Richard regarding the Town Council representative on the Governing Body of the school.</i></p>	Clerc / Clerc
7.	<p><b>DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 / ACCEPT 2023/24 ANNUAL REPORT</b></p>	

	<p>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2023/2024 a diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am baratoi'r adroddiad. Pawb yn cytuno i dderbyn yr adroddiad.</p> <p><i>The Annual Report for 2023/2024 was presented and the Chair thanked the Clerk for preparing the report. All in agreement to accept the report.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhian Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Hughes</p>	
8.	<p><b>CYFRIFON BLYNYDDOL / ANNUAL ACCOUNTS</b></p> <p>Cyflwynodd y Clerc y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2023-2024 a chymryd cwestiynau. Llofnododd y Clerc a'r Is-Gadeirydd y Cyng Rhian Hughes y cyfrifon blynyddol.</p> <p><i>The Clerk presented the Annual Accounts for 2023-2024 and took questions. The Clerk and Vice Chair Cllr Rhian Hughes signed the annual accounts.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Dewi Evans Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhydian Wilson</p>	
9.	<p><b>CYFLOG A CHOSTAU'R CLERC / CLERK'S SALARY &amp; COSTS</b></p> <p>Gadawodd y Clerc a'r Cyng. Catherine Hughes yr ystafell tra bod y cyfarfod yn trafod y cyflog am y flwyddyn i ddod a chytunwyd i gynyddu cyflog y Clerc sydd ar hyn o bryd yn £12.57 i £14.00 yr awr (bydd yn cael ei ôl-ddyddio i Ebrill 1af yng nghyflog y clerck), 30 awr y mis a ffi llogi ystafell am y flwyddyn yn £363.</p> <p><i>The Clerk and Cllr Catherine Hughes left the room whilst the meeting discussed the salary for the coming year and it was agreed to increase the Clerk's salary which is currently £12.57 to £14.00 per hour (will be backdated to April 1st in the Clerk's pay), 30 hours a month and Office rent fee of £363 for the year.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhian Jones Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Dewi Evans</p>	
10.	<p><b>CYFLOG Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE SALARY</b></p> <p>Cytunwyd i gynyddu cyflog y Gweithiwr Strydlun sydd ar hyn o bryd ar £10.42 i £11.50 yr awr (bydd yn cael ei ôl-ddyddio i Ebrill 1af), oriau i weithio – hyd at 2 awr yr wythnos – toiledau a hyd at 12 awr yr wythnos – strydoedd.</p> <p><i>It was agreed to increase the salary of the Street Scene Worker from £10.42 to £11.50 per hour (will be backdated to April 1st), hours to work – up to 2 hours a week – toilets and up to 12 hours a week – streets.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Dewi Evans Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Arwel Jones</p>	
11.	<p><b>PENODI ARCHWILIWR MEWNOL / APPOINTMENT OF INTERNAL AUDIT</b></p> <p>Enwebwyd / Nominated: Mr Gareth Jones, Tregaron,</p> <p>Cynnig / Proposer: Cyng Dewi Evans Eilio / Seconded: Cyng Rhian Jones</p>	
12.	<p><b>LLEOLIAD A AMSER CYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR LLAWN 2024/25/ TIME AND PLACE OF ORDINARY MEETINGS OF THE FULL COUNCIL FOR 2024/25</b></p>	

	<p>Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd parhau i gyfarfod ar drydedd nos Lun y mis am 7.30pm yn y Neuadd Goffa.</p> <p><i>A discussion was held and it was decided to continue to meet on the third Monday of the month at 7.30pm at the Memorial Hall.</i></p> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Rhian Hughes Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Arwel Jones</p>	
	<p><b>TERFYNWYD Y CYFARFOD BLYNYDDOL</b> <b>THE ANNUAL MEETING WAS CLOSED</b></p>	